

# Radon Gas

## Information for Childcare Settings

Cwllwm are collaborating with Public Health Wales and Welsh Government to raise awareness of radon gas and what this means for childcare providers in Wales.

Please find below some information about what radon gas is, how you can find out whether it may affect you and your service, and possible actions you can take.

We hope you will find this information useful not just as professional childcare providers and employers, but also to raise awareness for you, your staff and your families.

Please note: CSSIW will not be inspecting or asking for evidence about radon gas, however it would show good practice and reassure parents and staff if you have looked into it for your premises as part of your health and safety risk assessment and quality of care review.

### What is Radon?

Radon is a colourless, odourless radioactive gas that comes from the rocks and soils found everywhere in the UK.

### Where is radon found?

Radon is everywhere. Radon levels are low everywhere outdoors and for many areas indoors and the risk to health is small. Checks can be made on the premises you are in, whether you are looking after children in your own or rented premises, or as a childminder in your own home.

### Radon Gas - Do you know the risks?

Health and safety legislation requires employers in radon 'hotspots', or with basements or underground rooms, to assess radon exposure.

*Further information on radon in the workplace can be found at the Health & Safety Executive website [www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm](http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm)*

### Where are the radon 'hotspots' (Radon Affected Areas)?

An indicative map of radon affected areas in England and Wales, produced by Public Health England and British Geological Survey, is available from [www.ukradon.org/information/](http://www.ukradon.org/information/)

### Why is radon a risk to health?

The risk to health for most people is small, however the higher the radon levels and the longer the exposure to it, the greater the risk - especially if you smoke. Radon causes over 1,100 deaths from lung cancer each year in the UK. Half of these deaths occur among the quarter of the population who are current smokers.

### What level of radon is a cause for concern?

Radon is measured in Becquerels per cubic metre of air (Bqm<sup>-3</sup>). The average level in UK homes is 20 Bqm<sup>-3</sup>.

An Action Level of 200 Bqm<sup>-3</sup> applies to homes. Homes with radon levels above the Action Level should take action to reduce radon.

A **Target Level of 100 Bqm<sup>-3</sup>** is the ideal outcome for existing buildings. For levels below 100 Bqm<sup>-3</sup>, your individual risk remains relatively low and not a cause for concern. However, when homes are between the Action and Target Levels, householders should consider reducing their radon level, the risk increases as the radon level increases.

### What do you need to do next?

**Check** - if your property is in a radon affected area here <http://www.ukradon.org/information/>.

**Measure** - If you are in a radon Affected Area you should order a radon measurement pack for your home or workplace. Check whose responsibility it is if you are in rented premises.

*Radon detectors are safe and simple to use, for example they can sit on a shelf. They are small hollow plastic shells containing a piece of clear plastic that records the damage caused by radon. The detectors do not emit anything and do not collect anything dangerous.*

*The amount of radon varies over time and from room to room in a building. The test is carried out over three months to allow for variations in levels. Testing is recommended in the living area and bedroom of a home as these are the rooms most used. In workplaces sufficient radon monitors must be used to represent all occupied areas.*

**Act** - If the radon level is high you should explore the best method for reducing it, please refer to [www.ukradon.org/information/reducelevels](http://www.ukradon.org/information/reducelevels) for further information.

### Further information

For more information about radon gas, please visit

UK Radon Reference website  
[www.ukradon.org](http://www.ukradon.org)

Health & Safety Executive website  
[www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm](http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm)

Welsh Government  
[gov.wales/topics/health/protection/environmental/radon/?lang=en](http://gov.wales/topics/health/protection/environmental/radon/?lang=en)


Public Health Wales  
[www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/81979/](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/81979/)



Working in partnership with:



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Nwy Radon

## Gwybodaeth i Leoliadau Gofal Plant

Mae Cwllwm yn cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o nwy radon a beth y mae hyn yn ei olygu i ddarparwyr gofal plant yng Nghymru.

Gwelwch isod rywfaint o wybodaeth am nwy radon, sut y gallwch gael gwybod a all effeithio arnoch chi a'ch gwasanaeth, a'r camau posibl y gallwch eu cymryd.

Gobeithio y cewch y wybodaeth yma'n ddefnyddiol, nid yn unig fel darparwyr proffesiynol gofal plant a chyflogwyr, ond hefyd fel modd i gynyddu'ch ymwybyddiaeth eich hun, ymhlith eich staff a'ch teuluoedd.

Nodwch os gwelwch yn dda: Ni fydd AGGCC yn archwilio nac yn gofyn am dystiolaeth am nwy radon, ond mi fyddai'n arddangosiad o arferion da, ac yn gysur i rieni a staff, pe baech wedi ymchwilio i'r mater yng nghyd-destun eich safle yn rhan o'ch asesiad iechyd a diogelwch a'ch adolygiad ansawdd gofal.

### Beth yw radon?

Nwy di-liw, diarogl yw Radon, sy'n dod o greigiau a phridd o bob man yn y DU.

### Lle ceir hyd i Radon?

Mae Radon ym mhob man. Mae lefelau o Radon yn isel ym mhob man yn yr awyr agored, ac mewn sawl man mewn adeiladau, ac mae'r risgiau i iechyd yn fychan. Gellir gwirio eich safle chi, p'un a ydych yn eich adeilad eich hun, un wedi ei rentu, neu fel gwarchodwr plant yn eich cartref eich hun.

### Nwy Radon - A ydych chi'n gwybod y risgiau?

Mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gofyn bod cyflogwyr mewn mannau lle mae radon ar ei waethaf, neu sydd ag is-loriau neu ystafelloedd tanddaear, i asesu pa mor agored ydynt i effeithiau radon.

Ceir gwybodaeth bellach ar radon yn y gweithle o wefan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch [www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm](http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm)

### Ble mae mannau 'eithaf' radon (yr Ardaloedd a Effeithir gan Radon)?

Mae map yn dangos yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio yn Lloegr a Chymru, un sydd wedi ei gynhyrchu gan Public Health England ac Arolwg Daearegol Prydain, i'w weld yma [www.ukradon.org/information/](http://www.ukradon.org/information/)

### Pam fod radon yn risg i iechyd?

Mae'r risg i iechyd i'r mwyafrif o bobl yn fychan, ond er hynny y mae'n cynyddu yn ôl lefelau'r radon a'r amser y bydd rhywun yn agored iddo – yn enwedig os ydych yn ysmegu.

Mae Radon yn gyfrifol am dros 1,100 o farwolaethau o ganser yr ysgyfaint bob blwyddyn yn y DU.

Mae hanner y marwolaethau hyn yn digwydd ymysg chwarter o'r boblogaeth sydd ar y pryd yn ysmygwyr.

### Pa lefel o radon sy'n achos pryder?

Mesurir radon mewn unedau Becquerel fesul metr

ciwbig o aer ( $Bq\text{m}^{-3}$ ). Y lefel cyfartalog mewn cartrefi yn y DU yw  $20 Bq\text{m}^{-3}$ .

Y Lefel Weithredu perthynol i gartrefi yw  $200 Bq\text{m}^{-3}$ . Dylai cartrefi sydd â lefelau radon sy'n uwch na'r Lefel Weithredu gymryd camau i leihau'r radon.

Lefel Darged o  $100 Bq\text{m}^{-3}$  yw'r canlyniad delfrydol i adeiladau sy'n bodoli eisoes. Mae eich risg unigol yn gymharol isel ar lefelau o lai na  $100 Bq\text{m}^{-3}$ , ac nid ydynt yn fater pryder. Ond mae'r risg yn cynyddu wrth i lefel y radon gynyddu. Yn achos cartrefi sydd rhwng y lefelau Gweithredu a Tharged, dylai preswylwyr ystyried ostwng eu lefel o radon.

### Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?

**Gwirio** – gwelwch yma a yw eich eiddo mewn ardal y mae radon yn effeithio arni [www.ukradon.org/information/](http://www.ukradon.org/information/).

**Mesur** - Os ydych mewn Ardal a Effeithir gan radon dylech archebu pecyn mesur radon i'ch cartref neu weithle. [Gwiriwch pwy sy'n gyfrifol os ydych mewn lle sydd wedi ei rentu.](#)

*Mae canfyddwyr radon yn ddiogel ac yn syml i'w defnyddio; gallant, er enghraifft, aros ar silff. Cregyn plastig bychan, gwag yw'r rhain, sy'n cynnwys darn clir o blasting sy'n cofnodi'r niwed a achosir gan radon. Nid yw'r canfyddwyr yn allyrru unrhyw beth, ac nid ydynt yn casglu unrhyw beth peryglus.*

*Mae swm y radon yn amrywio dros amser o un ystafell i'r llall mewn adeilad. Cynhelir y prawf dros gyfnod o dri mis i ganiatáu ar gyfer amrywiadau yn y lefelau. Argymhellir cynnal y prawf yn ardal fyw ac ystafell wely cartref gan mai dyma'r ystafelloedd a ddefnyddir fwyaf. Mewn gweithleoedd rhaid defnyddio nifer digonol o fonitorau radon i gynrychioli pob ardal a ddefnyddir.*

**Gweithredu** - Os yw lefel y radon yn uchel dylech ymchwilio i'r dull gorau o'i ostwng; cyfeiriwch at <http://www.ukradon.org/information/reducelevels> am wybodaeth bellach.

### Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth am nwy radon, ewch i wefan UK Radon Reference ar [www.ukradon.org/](http://www.ukradon.org/)

Gwefan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch [www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm](http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/radon.htm)

Llywodraeth Cymru [www.gov.wales/topics/health/protection/environmental/radon/?lang=en](http://www.gov.wales/topics/health/protection/environmental/radon/?lang=en)

Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government